

Strategaeth Drafnidiaeth Leol 2024-2029



Cyngor Sir Fynwy

DATGANIAD GWELEDIGAETH

Rydym am ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n wynebu'r dyfodol ac sy'n diwallu anghenion trafnidiaeth ein cymunedau mewn ffordd gynaliadwy. Rhaid i'n rhwydwaith fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, bod yn ddeniadol i drigolion ac ymwelwyr, ac ymateb i dechnoleg sy'n newid

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Sir Fynwy yn cynnwys canolbwyntio gwasanaethau, cyfleusterau, tai newydd, a swyddi yn ac o amgylch ein trefi allweddol, a thrwy hynny alluogi cymunedau i gyrraedd gyrchfannau allweddol heb ddibynnu cymaint ar eu car.

Rydym am ail-strwythuro ein trefi o amgylch pobl, gan eu gwneud yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt. Mae ein strategaeth yn ceisio cofleidio patrymau economaidd a ffordd o fyw newidiol i ail-leoli cymdeithas trwy sicrhau mynediad at ystod eang o nwyddau a gwasanaethau hanfodol sy'n hygyrch o fewn cyrraedd hawdd i gartref preswlydd, naill ai drwy gerdded neu feicio. Byddwn yn adeiladu ar y cyfle a gynigir gan derfynau cyflymder is, gan ail-bwrpasu ein strydoedd at ddibenion masnachu, cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol.

Ein nod yw sicrhau bod teithio i gyfleusterau mwy canolog neu anghysbell, megis ar gyfer addysg, gofal iechyd a rhai gweithleoedd a chyfleusterau hamdden, yn cael eu cefnogi gan drafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy. Mae gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel, sy'n effeithlon ac yn rhyng-gysylltiedig, yn hollbwysig er mwyn cysylltu ein trefi a chael mynediad i gyrchfannau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'r ddau gyfeiriad, gan helpu i gryfhau gwytnwch a chystadleurwydd ein cymunedau a'n busnesau, tra'n diogelu'r amgylchedd.

Rydym yn cydnabod, i rai, y bydd y car yn parhau i fod yn ddull trafnidiaeth hanfodol. Mae cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan yn rhan bwysig o weledigaeth y dyfodol, ac mae'n hollbwysig cynnal a gwella ansawdd y rhwydwaith ffyrdd i bob defnyddiwr.

Mae gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon newydd neu well o ansawdd uchel yn hollbwysig er mwyn rhyng-gysylltu ein trefi a chael mynediad i gyrchfannau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'r ddau gyfeiriad, gan helpu i gryfhau gwytnwch a chystadleurwydd ein cymunedau a'n busnesau, tra'n diogelu'r amgylchedd. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i greu canolfannau trafnidiaeth integredig a gwella hygyrchedd i bawb.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer newid yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol canlynol:

- **Datgarboneiddio trafnidiaeth** – system trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel ddibynadwy a fforddiadwy sy'n cefnogi newid ymddygiadol hirdymor.
- **Adeiladu lleoedd gwell** – system teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu cymunedau â gwasanaethau allweddol ac mae strydoedd wedi'u cynllunio i bobl gerdded, beicio a gyrru'n ddiogel.
- **Cludiant cyhoeddus rhyng-gysylltiedig** – system trafnidiaeth gyhoeddus aml-fodd integredig gyda gwell cysylltedd, hygyrchedd a fforddiadwyedd.
- **Cofleidio technoleg ac arloesedd** – lleihau'r angen i deithio a'i gwneud yn haws i bobl a nwyddau deithio'n fwy cynaliadwy.
- **Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer** – rhyngwyneb cyfleus a dibynadwy gyda gwybodaeth amser real trwy un porth.
- **Gwerth Cyhoeddus** – Alinio llwybrau trafnidiaeth newydd â datblygu defnydd tir ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus a chludiant a rennir.

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein blaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf. Bydd rhai o'r rhain o fewn ein rheolaeth uniongyrchol tra y bydd eraill o dan reolaeth eraill. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau trafndiaeth.

Mae Cynllun Corfforaethol a Chymunedol y Cyngor yn gosod ein pwrpas i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i darged Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus Cymru i fod yn net sero erbyn 2030. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na all Sir Fynwy gyflawni'r ymyriadau a nodir yn y strategaeth hon ar ben ein hunain a bydd angen cymorth ar lefel Ranbarthol a Chenedlaethol a chydbwysio gwelliannau uchelgeisiol i'n system drafnidiaeth yn erbyn heriau fforddiadwyedd tymor.

Ein Huchelgais:

- Sefydlwyd llwybrau cerdded, seiclo ac olwynion ym mhob un o'n trefi i'w gwneud yn opsiwn diogel a hawdd ar gyfer teithiau llai na 3 milltir.
- Rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr da a diogel i'r holl ddefnyddwyr;
- Ar gyfer rhannau mwy trefol y sir, gwasanaethau bws craidd i redeg o leiaf bob hanner awr rhwng 08:00 a 18:00 ac o leiaf bob awr gyda'r nos ac ar ddydd Sul;
- Rhwydwaith bysiau pellter hwy aml a dibynadwy sy'n darparu mynediad i gyrchfannau pwysig fel Ysbyty Athrofaol y Grange, Ysbyty Neville Hall a Champws Brynbuga o Goleg Gwent ymhlith eraill;
- Cysylltiad a hybiau trafndiaeth gyhoeddus integredig, sy'n galluogi cysylltiadau effeithiol â rheilffyrdd a choetsis pellter hir, i hwyluso teithiau cymudo a hamdden cynaliadwy o fewn y ddinas-ranbarth ehangach, Cymru, De-orllewin Lloegr a thu hwnt.
- Gwasanaethau rheilffordd aml, dibynadwy a fforddiadwy o orsafoedd Sir Fynwy i gyrchfannau allweddol.
- Gwireddu gorsaf arloesol Rhodfa Magwyr.
- Gwasanaethau ar-alw a chymunedol i helpu i gysylltu cymunedau gwledig gwasgaredig â gwasanaethau allweddol a'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ehangach.
- Seilwaith gwefru cerbydau trydan sy'n galluogi pob perchennog cerbyd i wneud y dewis mwyaf cynaliadwy o gerbydau, wrth i opsiynau technoleg ddatblygu.
- Gwelliannau i gylchfan High Beech.
- Creu ffordd fynediad newydd o'r M48 i gysylltu â'r B4245 a Chyffordd Twnnel Hafren



CYNNWYS

Datganiad Gweledigaeth	2	5.3 Cynlluniau sy'n destun adolygiad neu beidio dan ystyriaeth.....	20
1. Cyflwyniad	6	6. Meysydd ffocws ac ymyriadau ar y rhestr fer	21
2. Gosod y cyd-destun	7	6.1 Cyflwyniad	21
2.1 Cynllun Datblygu Lleol Amnewid	7	6.2 Cynllunio Defnydd Tir	21
2.2 Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol a Rhanbarthol	8	6.3 Cysylltedd Digidol	22
2.3 Cyd-destun Polisi Ehangach	9	6.4 Cludo Nwyddau a Logisteg	23
2.4 Cynnwys Rhanddeiliaid	9	6.5 Hybiau Symudedd.....	24
3. Heriau a chyfleoedd trafnidiaeth 10		6.6 Teithio Llesol.....	24
3.1 Cyd-destun Trafnidiaeth Lleol.....	10	6.7 Bysiau.....	26
3.2 Patrymau Teithio Presennol a Gwaelodlin y Dyfodol.....	11	6.8 Rheilffordd.....	27
3.3 Problemau a Heriau Trafnidiaeth. Datgarboneiddio Sir Fynwy System Drafnidiaeth.....	12 13	6.9 Gwasanaethau Ar Alw a Chymunedol	28
4. Nodau ac Amcanion	14	6.10 Newid Ymddygiad a Gwybodaeth	29
4.1 Amcan Cyffredinol.....	14	6.11 Isadeiledd Codi Tâl am Gerbydau Trydan	29
4.2 Amcanion SDL ac Aliniad Polisi	14	6.12 Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio.....	30
4.3 Newid Dulliau Teithio	16	6.13 Teithio o'r Cartref i'r Ysgol.....	31
4.4 Cerdded a Seiclo	17	7. Cynllun Cyflenwi	33
4.5 Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig.	17	7.1 Gwneud ein Gweledigaeth yn Realiaeth	33
4.6 Cynllunio Defnydd Tir a Thrafnidiaeth ...	17	7.2 Ariannu a Chyflenwi.....	33
4.7 Hybiau Symudedd.....	18	7.3 Monitro ac Arfarnu.....	33
5. Methodoleg Arfarnu	19	8. Crynodeb a Chasgliadau	34
5.1 Fframwaith Arfarnu.....	19	8.1 Crynodeb	34
5.2 Dosbarthiad Cynllun SDL	19	8.2 Casgliadau.....	34

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Fynwy (CSF) wedi paratoi'r Strategaeth Drafnidiaeth Leol (SDL) hon i sefydlu fframwaith strategol ar gyfer datblygu'r rhwydwaith trafndiaeth yn ein hardal yn y dyfodol. Rydym wedi sicrhau bod y strategaeth yn cyd-fynd â'r weledigaeth a rennir ac amcanion blaenoriaeth Llwybr Newydd (Strategaeth Trafnidiaeth Genedlaethol Cymru), a Chynllun Corfforaethol a Chymunedol y Cyngor. Mae cynaliadwyedd amgylcheddol a lliniaru newid yn yr hinsawdd yn greiddiol i'n hymagwedd, a hygyrchedd gwasanaethau trafndiaeth i bawb. Lluniwyd ein Cynllun Trafnidiaeth Lleol diwethaf yn 2015. Nid oes gan Sir Fynwy ddyletswydd statudol mwyach i ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth a bydd yn lle hynny'n cael ei gynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (CTRh). Mae Cyngor Sir Fynwy ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLI), a fydd yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu tir yn Sir Fynwy hyd at 2033. Mae Sir Fynwy wedi'i lleoli'n strategol ar y ffin â Lloegr, ac rydym yn un o'r siroedd mwyaf cysylltiedig yng Nghymru. Mae gennym ddwy draffordd (yr M4 a'r M48), Pont Hafren ac Ail Groesfan Hafren Tywysog Cymru yn darparu mynediad ffordd strategol, ac mae Sir Fynwy yn gysylltiad rheilffordd pwysig â gorsafoedd ar hyn o bryd yn y Fenni, Cas-gwent, Cyffordd Twannel Hafren a Chil-y-coed. Mae ein system drafnidiaeth yn hanfodol i helpu pobl a nwyddau i gyrraedd y lleoedd sy'n gwneud ein sir yn lle rydyn ni'n caru byw, gweithio ac ymweld â hi.

Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod nad yw trafndiaeth wedi'i chyfyngu gan ffiniau awdurdodau ac mae Sir Fynwy yn cynnal cysylltiadau ag awdurdodau lleol cyfagos ar y ddwy ochr i'r ffin i drafod cynigion datblygu a nodi cyfleoedd i wella opsiynau trafndiaeth sy'n cysylltu ein cymunedau, lleoedd cyflogaeth, gwasanaethau, a chyrchfannau ymwelwyr. Mae 2.5 miliwn o ymwelwyr yn dod i Sir Fynwy bob blwyddyn, ac rydym yn eiwa o gefn gwlad hardd a thirweddau amrywiol o ansawdd eithriadol, sydd wedi'u cysylltu gan Afonydd Gwy ac Wysg, llwybrau pellter hir fel Llwybr Cerdded Cenedlaethol Clawdd Offa

Llwybr Arfordir Cymru, a Chamlas Sir Fynwy a Brycheiniog.

Sir wledig yw Sir Fynwy, ac er bod ei phoblogaeth wedi codi i bron i 100,000 o bobl, mae'n parhau i fod yn un o'r siroedd lleiaf poblog yng Nghymru. Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae tua hanner ein poblogaeth (48% o aelwydydd) yn byw ym mhrif drefi'r Fenni, Trefynwy, Cil-y-coed a Chas-gwent. Mae 13% ychwanegol o aelwydydd yn nhrefi Glannau Hafren, sef Caerwent, Magwyr a Gwndy, Porthsgiwed, a Rogiet, sy'n golygu bod 39% o aelwydydd mewn rhannau gwledig o'r sir.

Yn sgil natur wledig ein Sir a'r seilwaith trafndiaeth gyhoeddus cymharol gyfyngedig o'i gymharu ag ardaloedd trefol, rydym yn cydnabod y bydd angen parhaus i ddefnyddio ceir ar gyfer llawer o bobl a theithiau. Nod y strategaeth hon, serch hynny, yw gwella darpariaeth trafndiaeth gynaliadwy i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Mae aelwydydd incwm isel, y plant a'r bobl ifanc sydd ynddynt, menywod a phobl ag anableddau yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig bysiau. Mae cost a natur afreolaidd bysiau yn arbennig, yn effeithio'n anghymesur ar y grwpiau hyn gan effeithio ar eu cyfleoedd bywyd, mynediad at iechyd, allgáu cymdeithasol cynyddol a'u gallu i chwilio am waith a'i sicrhau. I'r gwrthwyneb, mae system drafnidiaeth sy'n darparu dewisiadau amgen hygyrch a fforddiadwy yn lle defnyddio ceir preifat yn cynnig manteision lluosog, gan gynnwys llai o dagfeydd, ansawdd aer gwell a diogelwch ar y ffyrdd, manteision iechyd ymarfer corff a'r manteision cymdeithasol a ddaw o strydoedd tawelach.

Mae'r strategaeth hon yn ystyried y cyd-destun lleol, yn cefnogi economi iach a chytbwys, cynhwysiant cymdeithasol, a chydarddoldeb, a'i nod yw lleihau effaith amgylcheddol y system drafnidiaeth. Mae'r strategaeth gyffredinol yn cyflwyno dadansoddiad o'r sefyllfa drafnidiaeth bresennol yn Sir Fynwy, y cyfleoedd a'r cyfyngiadau ac atebion posibl i wella'r rhwydwaith trafndiaeth ar gyfer yr holl ddefnyddwyr.

2. GOSOD Y CYD-DESTUN

2.1 Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

Mae CSF yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA) ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Bydd y CDLIA yn nodi cynigion datblygu defnydd tir ar gyfer y Sir a bydd yn nodi faint o ddatblygiadau newydd a fydd yn digwydd hyd at 2033 a ble y bydd hwn yn cael ei leoli. Bydd hefyd yn nodi ardaloedd i'w diogelu rhag datblygiad ac yn darparu polisiau ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn y dyfodol. Pan gaiff ei fabwysiadu, y CDLIA fydd y cynllun defnydd tir statudol sy'n cefnogi dibenion craidd y Cyngor a nodir yng Nghynllun Corfforaethol a Chymunedol 2022.

Mae'r CDLIA yn nodi'r Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy fel Prif Aneddiadau'r sir gyda chyfleoedd yn y lleoliadau hyn ar gyfer cyflogaeth, mynediad at wasanaethau a thrafnidiaeth gynaliadwy. Ceir cyfleoedd ychwanegol yn ardal ehangach Glannau Hafren, Aneddiadau Eilaidd Penperlenni, Rhaglan a Brynbuga, ac mewn nifer o aneddiadau gwledig llai. Bydd datblygiad yn canolbwyntio ar brif aneddiadau'r sir, a'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy, fel y dangosir yn Nhabl

2.1.Tabl 2.1 Dyranidau Safle Strategol a Ffefrir CDLIA

Enw'r Safle	Defnydd Arfaethedig	Nifer y Cartrefi
Dwyrain Y Fenni	Defnydd Cymysg	500
Cas-gwent	Defnydd Cymysg	145
Trefynwy	Preswyl	270
Dwyrain Cil-y-coed	Defnydd Cymysg	735

Mae'r diagram allweddol (Ffigur 2.1) yn parhau â'r cysylltiadau strategol a nodwyd yn y CDLI mabwysiedig presennol. Mae'r canlynol yn gynlluniau trafndiaeth allweddol y bwriedir eu diogelu rhag unrhyw newidiadau defnydd tir a fyddai'n eu hatal rhag symud ymlaen.

Cynlluniau Teithio Llesol

- CTLI Y Fenni a Llan-ffwyst
- CTLI Cil-y-coed
- CTLI Cas-gwent
- CTLI Trefynwy
- CTLI Magwyr a Gwndy
- CTLI Gwndy i Rogiet
- CTLI Brynbuga

Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus

- Gwelliannau i Orsaf Drenau'r Fenni
- Gwelliannau i Safle Bws Y Fenni
- Hyb Trafnidiaeth Cas-gwent
- Gwella Cyfnewidfa Twnnel Hafren
- Safle Bws/ Coetsis Trefynwy
- Gorsaf Rhodfa Magwyr

Cynlluniau Ffyrdd

- Ffordd Gyswllt Cyffordd Twnnel Hafren y B4245/M48
- Gwelliannau i gylchfan High Beech

Mae polisiau allweddol eraill yn ymwneud â thrafnidiaeth yn cynnwys:

Polisi Strategol S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy: mae'n cefnogi darparu datblygiad sy'n ymgorffori cymysgedd priodol o ddefnyddiau i leihau'r angen i deithio a gwneud y mwyaf o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Polisi Strategol S9 – Trafnidiaeth Gynaliadwy: Rhaid i ddatblygiadau hyrwyddo dulliau cynaliadwy, carbon isel, diogel o drafnidiaeth sy'n lleihau'r angen i deithio mewn car. Rhaid iddynt hefyd gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio a gwella trafndiaeth gyhoeddus.



2.2 Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol a Rhanbarthol

Dyletswyddau Statudol

Cyflwynodd Deddf Trafnidiaeth 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, ofyniad statudol i awdurdodau trafndiaeth lleol gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLI) bob pum mlynedd a'i gadw dan adolygiad.

Cymeradwywyd CTLI diweddaraf CSF gan Weinidogion Cymru ym mis Mai 2015 ac roedd yn cynnwys rhaglen bum mlynedd wedi'i blaenoriaethu o brosiectau. Cynhaliwyd adolygiad o'r cynllun a nododd yr amcanion dros dro a nodir yn Nhabl 2.3 isod, fel sail ar gyfer datblygu'r strategaeth hon.

Trosglwyddodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y ddyletswydd i ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth i'r Cydbwyllgorau Corfforaethol (CC) newydd yng Nghymru. Mae CSF yn aelod o Gydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (SEWCJC), sy'n gyfrifol am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol Rhanbarthol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) ac am wneud beth bynnag sy'n angenrheidiol i wella neu hyrwyddo lles economaidd Prifddinas- Ranbarth Caerdydd.

Bydd Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn disgrifio'r heriau a'r cyfleoedd trafndiaeth allweddol sy'n berthnasol i'w rhanbarth ac yn nodi polisïau ac ymyriadau i'r awdurdodau lleol eu cyflawni yn y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2025 a 2030, yn ogystal â dyheadau tymor canolig a hirdymor hyd at 2050.

Pam ydym wedi datblygu'r Strategaeth Drafnidiaeth Leol?

Er nad oes dyletswydd bellach ar awdurdodau lleol yng Nghymru i greu CTLI, mae CSF wedi penderfynu paratoi'r Strategaeth hon at ddau ddiben allweddol:

1. Bydd paratoi sylfaen dystiolaeth gadarn, gyfredol yn sicrhau bod CSF mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliannau i seilwaith trafndiaeth gynaliadwy drwy ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol SEWCJC. Gellir sicrhau hyn drwy ddatblygu'r Strategaeth Drafnidiaeth Leol mewn ffordd sy'n ymateb i ofynion cynllunio'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a hyrwyddo seilwaith trafndiaeth diogel, integredig ac effeithlon yn Sir Fynwy.
2. Bydd datblygu'r SDL ochr yn ochr â'r CDLIA yn helpu i sicrhau bod cynllunio defnydd tir a chynllunio trafndiaeth yn cael eu hystyried mewn modd integredig. Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau gwell drwy sicrhau bod cartrefi a swyddi newydd yn cael eu lleoli mewn mannau y gall pobl deithio yn ôl ac ymlaen yn gynaliadwy. Bydd hefyd yn sicrhau bod gofynion seilwaith trafndiaeth yn cael eu hystyried a'u hariannu'n briodol wrth i safleoedd datblygu gael eu dwyn ymlaen.

Thema	Amcanion Dros Dro ar gyfer y Strategaeth Drafnidiaeth Leol 2024 - 29
Cymuned	<ul style="list-style-type: none"> Lleihau anghydraddoldebau a chefnogi cymunedau diogel, iach, teg a hygyrch i bobl a lleoedd trwy ddarparu cludiant yn Sir Fynwy
Economi	<ul style="list-style-type: none"> Tyfu economi Sir Fynwy drwy system drafnidiaeth lewyrchus i ddarparu cysylltiadau cynaliadwy i drefi marchnad allweddol a chyrchfannau allanol allweddol, a sicrhau lles cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol trwy arferion cynaliadwy.
Amgylchedd	<ul style="list-style-type: none"> Hwyluso datblygiad system drafnidiaeth ecogyfeillgar i bawb yn Sir Fynwy ac i gyrchfannau allanol allweddol, sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ddramatig ac yn blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gwella ymwybyddiaeth o ddulliau teithio cynaliadwy a chanlyniadau dewisiadau teithio ar newid hinsawdd, yr amgylchedd ac iechyd
Hygyrchedd	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gan holl drigolion ac ymwelwyr Sir Fynwy fynediad digonol a chyfartal i seilwaith cerdded a beicio, trafndiaeth gyhoeddus, a cherbydau allyriadau isel neu sero o ran yr hierarchaeth drafnidiaeth
Diwylliant	<ul style="list-style-type: none"> Caniatáu i ddiwylliant ac iaith Gymraeg ffynnu ar ein rhwydweithiau trafndiaeth, yn Sir Fynwy ac i gyrchfannau allanol allweddol

2.3 Cyd-destun Polisi Ehangach


Mae polisiau allweddol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi'u hadolygu wrth ddatblygu'r strategaeth hon. Mae'r polisiau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad A ynghyd â chrynodeb o bolisiau awdurdodau cyfagos.

Mae'r casgliadau allweddol sy'n berthnasol i ddatblygiad y strategaeth hon fel a ganlyn

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrrff Cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau a sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at eu nodau llesiant.
- Bydd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Deddwyrain Cymru yn teilwrio darpariaeth Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i'n hardal leol ac yn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer Sir Fynwy.
- Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod yn rhaid i ddatblygiadau newydd hyrwyddo dulliau trafndiaeth carbon isel, diogel a chynaliadwy sy'n lleihau'r angen i deithio mewn car.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019 ac mae ganddi darged cyfreithiol rwymol i gyrraedd sero net erbyn 2050. Mae ganddynt uchelgais y bydd Sector Cyhoeddus Cymru yn sero net erbyn 2030.
- Mae'r CDLIAyn nodi bod dibyniaeth ar geir a phellteroedd cymudo hir yn faterion allweddol yng nghyd-destun Sir Fynwy. Fe wnaeth dileu tollau Hafren yn 2018 ddwysáu llif cymudwyr rhwng Sir Fynwy a Gorllewin Lloegr.
- Bydd deddfwriaeth Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn yn rhoi cyfrifoldeb arweiniol i Trafnidiaeth Cymru (TrC) i gynllunio a chyflawni gwelliannau i'r rhwydwaith bysiau.
- Mae newid moddol yn ofyniad allweddol yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a bydd yn her sylweddol i'r rhai sy'n cynllunio ac yn darparu trafndiaeth yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy o fewn Llwybr Newydd. Mae hyn yn helpu i arwain y broses o wneud penderfyniadau drwy ganolbwyntio'n gyntaf ar rôl lle wrth leihau teithiau, cyn blaenoriaethu dulliau cynaliadwy o deithio. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfres o dargedau ar gyfer trafndiaeth i helpu i gyflawni'r strategaeth genedlaethol, er enghraifft 30% o'r gweithlu i weithio o bell, a 45% o deithiau i'w gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio erbyn 2040.

Mae'r dyheadau hynny wedi'u hystyried wrth ddatblygu ein strategaeth a byddant yn parhau i lywio'r broses gynllunio ranbarthol.



Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Llywodraeth Cymru.

2.4 Cynnwys Budd-ddeiliaid

Mae'r strategaeth hon wedi'i datblygu drwy gyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid, ac mae rhagor o fanylion amdanynt wedi'u cynnwys yn yr atodiadau. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus rhwng Tachwedd 2023 ac Ionawr 2024 gyda 2,434 yn ymweld â'r arddangosfa ar-lein a 335 o ymatebion. Crynhoir y canlyniadau yn Atodiad B Adroddiad Cyfranogiad.

3. HERIAU A CHYFLEOEDD TRAFNDIAETH

3.1 Cyd-destun Trafnidiaeth Lleol

Mae gan Sir Fynwy arwynebedd tir o tua 880 cilometr sgwâr, ac mae'n ardal wledig yn bennaf gyda 3% o'r Sir yn cael ei hystyried yn ardal drefol/trefol. Mae gan y Sir boblogaeth o 95,000 gyda 48% o aelwydydd wedi'u lleoli ym mhrif aneddiadau'r Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy. Mae 13% ychwanegol o aelwydydd wedi'u lleoli yn nhrefi Glannau Hafren, sef Caerwent, Magwyr a Gwndy, Porthsgiwed a Rogiet, gyda 39% o aelwydydd mewn ardaloedd gwledig.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae rhwydwaith rheilffyrdd Sir Fynwy yn cynnwys Rheilffordd y Gororau, sy'n darparu cysylltiadau gogledd-de drwy'r Fenni, Prif Linell De Cymru (PLDC) gyda gwasanaethau'n galw yng Nghyffordd Twannel Hafren, a Lein Caerloyw i Gasnewydd gyda gorsafoedd yng Nghas-gwent a Chil-y-coed.

Mae rhwydwaith bysiau Sir Fynwy fel arfer yn cynnwys llwybrau craidd, gwasanaethau tref a gwasanaethau gwledig. Mae llwybrau craidd yn cysylltu'r aneddiadau allweddol sydd â'i gilydd ac aneddiadau cyfatebol y tu allan i Sir Fynwy. Mae llwybrau tref yn gwasanaethu ardaloedd trefol allweddol y Fenni, Trefynwy, Cas-gwent a Glannau Hafren (neu'n cysylltu â phentrefi cyfagos e.e. Llanelen).

Mae gwasanaethau gwledig eraill sydd wedi'u hamserlennu yn gweithredu'n amlach (3-6 y dydd fel arfer), ac mae rhai gwasanaethau'n gweithredu'n llai aml i wasanaethu colegau neu wasanaethau diwrnod marchnad na sydd yn ddyddiol.

Mae Grass Routes yn wasanaeth cludiant cymunedol a ddarperir gan CSF ar sail aelodaeth. Mae hwn yn wasanaeth bws hyblyg sy'n gwneud teithiau ar gais.

Gall cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus gwael a diffyg dewisiadau eraill arwain at arwahanrwydd cymdeithasol i drigolion nad oes ganddynt fynediad i gerbydau preifat. Mae natur wledig y sir a phatrwm aneddiadau gwasgareddig yn gwneud darpariaeth teithio cynaliadwy yn her. Yn nodweddiadol, nid yw gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn fasnachol hyfwrw ac mae angen cymorth referniw parhaus sylweddol arnynt. Mae'r diffyg integreiddio rhwng gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a chost tocynnau yn cyfyngu ymhellach ar ba mor ddeniadol yw teithiau aml-foddol ac yn cyfyngu ar gyrhaeddiad posibl y rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy.

Rhwydwaith Priffyrdd a Heriau Allweddol


Wedi'i lleoli o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae Sir Fynwy mewn lleoliad strategol rhwng canolfannau mawr yn Ne Cymru, de-orllewin Lloegr, a Chanolbarth Lloegr. Mae Sir Fynwy yn profi all-gymudo net o tua 2,800 o drigolion y dydd, neu 39% o'r boblogaeth waith yn cymudo i Gasnewydd, Caerdydd, Bryste a'r ardaloedd cyfagos. Mae tagfeydd traffyrdd a phriffyrdd lleol (fel High Beech, Cas-gwent) yn cyfrannu at ansawdd aer gwael, gydag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Nghas-gwent a Brynbuga. Gellir priodoli llawer o'r materion ansawdd aer yng Nghas-gwent i dwf aneddiadau a chynnydd mewn llif cymudo drwy Gas-gwent o Loegr. Yn fwy cyffredinol, mae cymudo wedi cynyddu'n arbennig i/o Orllewin Lloegr, yn dilyn dileu Tollau Hafren yn 2018.

Ar hyn o bryd mae diffyg seilwaith gwefru cerbydau trydan yn Sir Fynwy. Er bod alinio â pholisi trafndiaeth Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar yr angen am newid dulliau teithio drwy symud oh ddefnyddio ceir preifat, mae'n bwysig cydnabod pwysigrwydd y rhwydwaith ffyrdd gwledig a strategol ar gyfer awdurdod wledig fel Sir Fynwy a'r angen i symud i gerbydau trydan cyn gynted ag sydd yn bosib.

3.2 Patrymau Teithio Presennol a'r Dyfodol Gwaelodin

Bydd cynnal y rhwydwaith ffyrdd gwledig a strategol ar gyfer pob cerbyd, gan gynnwys cludo nwyddau, yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer trafnidiaeth leol yn Sir Fynwy, ochr yn ochr ag ymdrechion i annog newid moddol a thrafnidiaeth gynaliadwy. Yn ôl y data sydd ar gael, a ddangosir yn Nhabl 3.1, gyrru yw'r dull teithio a ddefnyddir fwyaf yn Sir Fynwy o bell ffordd. Heb ymyriadau i wella argaeledd dulliau teithio amgen, ac o ystyried natur wledig y sir, patrwm aneddiadau gwasgareddig, rhagwelir y bydd y defnydd o geir yn parhau'n uchel fel y dangosir yn nhabl 3.1 isod.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, Sir Fynwy sydd â'r lefel uchaf o berchnogaeth ceir o blith unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, sef 1.51 cerbyd fesul cartref, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 1.32. Mae perchnogaeth ceir wedi cynyddu 4% yn Sir Fynwy ers Cyfrifiad 2011. Fel y dangosir yn Ffigur 3.2, mae perchnogaeth ceir ar ei hisaf mewn trefi allweddol, gan amlygu'r potensial ar gyfer cerdded a beicio ar gyfer teithiau pellter byrrach yn nhrefi allweddol y Fenni, Trefynwy, Cas-gwent a Chil-y-coed.



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

	Cerbyd	Teithiwr Cerbyd	Cerdded	Seiclo	Bws	Rheilffordd	Arall
Cymudo Cyfrifiad 2011	75.6%	7.3%	11.9%	1.3%	1.8%	0.6%	1.5%
Blwyddyn Sylfaen MTDDdC 2015	96.4%	-	-	-	2.1%	1.5%	-
Rhwydwaith Symudol 2019	97.5%	-	1.6%	-	0.9%	-	-
Cymudo Cyfrifiad 2021*	79.8%	4.8%	10.5%	1.2%	0.7%	1.0%	2.0%
Rhagolwg MTDDdC 2031**	97.4%	-	-	-	1.2%	1.3%	-

Tabl 3.1 Cyfran Dull Teithio a Arsylwyd ac a Ragwelwyd yn Sir Fynwy heb unrhyw ymyriadau.

Ffigur 3.1 Perchnogaeth Car Sir Fynwy fesul Aelwyd

3.3 Problemau a Heriau Trafnidiaeth

Nodwyd y materion allweddol canlynol fel problemau trafndiaeth yn Sir Fynwy.



Er ei fod yn gwella, mae diffyg seilwaith yn cyfyngu ar hyfywedd cerdded a beicio

- Mae bylchau yn y rhwydwaith yn rhwystro'r niferoedd sy'n cymryd rhan.
- Mae niferoedd uchel o draffig yn enwedig ar ffordd A ac yng nghanol trefi yn creu pryderon diogelwch ffordd.
- Mae topograffeg a phellter rhwng trefi allweddol yn cyfyngu ar y nifer sy'n manteisio arnynt



Mae diffyg cysylltedd trafndiaeth gyhoeddus yn arwain at arwahanrwydd cymdeithasol i drigolion heb fynediad i geir preifat.

- Gwasanaethau bus annibynadwy, amledd isel, a gwasanaeth rhwydwaith gwael. Mae amseroedd teithio araf a llwybrau anuniongyrchol yn golygu nad yw bus yn ddewis amgen ymarferol i gar preifat.
- Mae'r rheilffordd yn ddrud ac mae ganddo broblemau perfformiad – mae gwasanaethau i Fryste, Casnewydd a Chaerdydd yn aml yn orlawn.
- Diffyg mynediad trafndiaeth gyhoeddus i wasanaethau gofal iechyd canolog (e.e. Ysbyty Athrofaol y Grange)
- Dim cysylltedd uniongyrchol rhwng Cas-gwent a Bryste, a diffyg integreiddio rhwng PLDC a gwasanaethau i Gaerloyw
- Mae nifer isel o orsafoedd rheilffordd yn cyfyngu ar nifer y teithiau y gellir eu gwneud ar drên, yn enwedig y PLDC e.e., Magwyr.



Mae diffyg integreiddio trafndiaeth yn cyfyngu ar deithiau cydgysylltiedig a chyfleoedd trafndiaeth gyhoeddus

- Diffyg cysylltiadau milltir gyntaf ac olaf i ganolfannau trafndiaeth, gan gynnwys lleoedd parcio beiciau diogel a lleoedd parcio ceir

- Diffyg cysylltedd rhwng dulliau teithio, yn enwedig mewn gorsafoedd bysiau a threnau yn ogystal â gwybodaeth a thocynnau amlfodd



Mae patrymau defnydd tir a datblygu blaenorol yn cyfrannu at ddibyniaeth ar deithiau car preifat

- Dibyniaeth uchel ar geir a phellteroedd cymudo hir: mae 40% o drigolion yn cymudo pellteroedd sylweddol, megis Bryste, Casnewydd a Chaerdydd.
- Perchnogaeth car uchel: dim ond 4% o gymudwyr sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ac 1% yn cerdded a beicio.
- Nid yw datblygiadau tai newydd wedi cael eu gwasanaethu gan wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus hyfyw.
- Mae canoli gwasanaethau a natur wledig y Sir yn golygu bod amseroedd teithio i wasanaethau yn uwch na chyfartaledd Cymru



Mae tagfeydd traffig lleol a thraffyrdd yn cyfrannu at ansawdd aer gwael ac allyriadau nwyon tŷ gwyr

- Llifau cymudo sylweddol, yn enwedig i orllewin Lloegr, sydd wedi dwysáu yn dilyn dileu tollau Pont Hafren yn 2018.
- Mae cyffyrdd traffordd cyfyngedig yn cyfrannu at gynnydd mewn traffig ar ffordd lleol, defnydd cyfyngedig o'r M48 a thagfeydd mewn manau cyfyng allweddol, megis cylchfan High Beech, Cas-gwent.
- Diffyg seilwaith cerbydau trydan.
- Effeithiau ansawdd aer oherwydd allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gydag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Nghas-gwent a Brynbuga
- Mae trafndiaeth i gyrchfannau twristiaeth, megis Dyffryn Gwy yn seiliedig ar lawer o geir, gan arwain at heriau traffig a pharcio, yn enwedig y tymhorau brig


3.4 Datgarboneiddio System Drafnidiaeth Sir Fynwy

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau ei allyriadau carbon ei hun a chefnogi ei gymuned i wneud yr un peth. Yn 2021, roedd allyriadau trafndiaeth yn cyfateb i 36% o gyfanswm allyriadau'r Sir¹. Rydym yn cydnabod bod system drafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy yn rhagflaenydd i newid moddol a'r pontio oddi wrth aelwydydd sydd â cheir lluosog. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi uchelgeisiau allweddol yn ei Chyflenwi Trafnidiaeth Cenedlaethol gan gynnwys targed y dylai 39% o'r holl deithiau erbyn 2030 gael eu gwneud gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu gerdded a beicio. I gefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau Cenedlaethol a Lleol byddwn yn ymgymryd â'r canlynol:

- Cysoni defnydd tir a chynllunio trafndiaeth â'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy a gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â rhwystrau a gwella'r defnydd.
- Cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i 30% o'r gweithlu fod yn gweithio yn eu cartref neu'n agos ato.
- Cefnogi datblygiad seilwaith gwefru cerbydau trydan ledled Sir Fynwy.

Rhaid i benderfyniadau buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol ddarparu cyfleoedd i wella opsiynau trafndiaeth gynaliadwy, gwella ansawdd aer, ymgorffori arloesedd technolegol, neu leihau allyriadau carbon.

Yn y pen draw, bydd angen dull gweithredu hirdymor rhanbarthol i ddatgarboneiddio trafndiaeth a chyrraedd targedau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.



Ffigur 3.2 Targedau Trafnidiaeth yng Nghymru (Ffynhonnell Llwybr Newydd / Sero Net Cymru). Nodyn: Mae ffigurau gwaelodlin yn gyfartaleddau ar gyfer Cymru ac nid yn benodol i Sir Fynwy.

¹ <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/64a67b3a4dd8b3000f7fa546/2005-21->

4. NODAU AC AMCANION

4.1 Nod Cyffredinol

System drafndiaeth a defnydd tir integredig sy'n blaenoriaethu teithio cynaliadwy, yn galluogi pontio i sir ddi-garbon, ac yn cefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywyd.

Mae'r nod hwn yn adlewyrchu gweledigaeth a blaenoriaethau SDC, a chynllun Cymunedol a Chorfforaethol Cyngor Sir Fynwy. Mae hefyd yn gyson â'r cyd-destun polisi lleol a chenedlaethol, yr hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy, a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n dod i'r amlwg.

Mae ein huchelgais ar gyfer trafndiaeth yn ceisio gwneud y gorau o'n cyd-destun unigryw, gan ganiatáu i drigolion Sir Fynwy gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu cymuned leol, i gymdeithasu a siopa'n lleol, a chael y cyfle i weithio'n lleol, gan osgoi'r angen am deithiau cymudo hir. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y tueddiadau o ran cau gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig a chanoli gwasanaethau gofal iechyd yn cynyddu arwahanrwydd gwledig, amddifadedd a chostau trafndiaeth.

Er mwyn cefnogi cynhwysiant cymdeithasol a ffordd iachach o fyw ar gyfer ein preswylwyr, rydym yn cydnabod bod yn rhaid lleihau dibyniaeth ar geir, ac mae angen mwy o ddewisiadau symudedd arnom i alluogi newid ymddygiad. Rydym yn ymrwmo i greu system drafndiaeth sy'n hygyrch i bob aelod o'n cymuned, waeth beth fo'u hoedran, gallu neu incwm. Mae hyn yn cynnwys llwybrau troed diogel i gerddwyr, llwybrau beicio, bysiau, ac opsiynau trafndiaeth sy'n ymateb i'r galw yn ogystal â rhwydwaith rheilffyrdd gwell sy'n haws ei gyrraedd ar amrywiaeth o opsiynau milltir gyntaf ac olaf i wneud y mwyaf o fuddsoddiad yn rhwydwaith y Metro.

Tra'n cydnabod yr angen am newid modol oddi wrth ddefnyddio ceir preifat, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y rhwydwaith ffyrdd gwledig a strategol ar gyfer symud pobl a nwyddau mewn awdurdod gwledig fel Sir Fynwy, a'r angen i drosglwyddo i gerbydau trydan cyn gynted ag y bo modd. posibl. Byddwn yn mynd i'r afael â'r diffyg presennol o ran seilwaith gwefru cerbydau trydan, ac yn cefnogi clybiau ceir a rhannu lifftiau i wella hygyrchedd a fforddiadwyedd cerbydau allyriadau sero.

Mae ein dyraniadau strategol yn y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid yn adlewyrchu'r angen i siapio datblygiad mewn lleoliadau lle mae teithio cynaliadwy yn ddewis realistig, a'r angen i ddarparu opsiynau teithio cynaliadwy o'r meddiannaeth gyntaf.

Bydd angen i ddatblygiad yr opsiynau trafndiaeth gynaliadwy hyn fod yn broses gynhwysol. Rydym yn ymrwmo i ymgysylltu â thrigolion, busnesau, a sefydliadau lleol i geisio eu barn, mewnwelediadau, a syniadau i helpu i lunio dyfodol ein system drafndiaeth ac esblygu'r ffordd yr ydym yn teithio o gwmpas yn Sir Fynwy.

4.2 Amcanion SDL ac Aliniad

Polisi

Bydd yr ymyriadau a'r polisiâu a nodir yn y ddogfen hon yn cael eu cyflwyno i'w hasesu ymhellach a'u cynnwys o bosibl yn y CTRh, ac felly mae angen alinio'r Strategaeth Drafndiaeth Leol hon â Strategaeth Drafndiaeth Cymru, fel y crynhoir yn Nhabl 4.1. Bydd hyn yn helpu i sicrhau aliniad polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a dull cyson o asesu a blaenoriaethu ymyriadau.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae'r Strategaeth hon wedi'i fframio gan gyfres gynhwysfawr o amcanion sy'n crynhoi'r uchelgeisiau dymunol ar gyfer Sir Fynwy, wedi'u halinio ag uchelgeisiau llesiant SDC.

Strategaeth Drafnidiaeth Leol 2024-2029

Mae set o ddeuddeg maes ffocws, a ddangosir yn y Tabl 4.2 wedi'u datblygu i lywio datblygiad ymyriadau, gan adlewyrchu tair blaenoriaeth SDC. Nid yw'r un o'r rhain wedi'u graddio na'u pwysoli mewn unrhyw ffordd fel rhan o'r SDL. Mae hyn wedi arwain at y Fframwaith a ddangosir yn Nhabl 4.1, sy'n darparu'r meini prawf priodol ar gyfer ystyried unrhyw ymyriadau trafndiaeth presennol neu rai sy'n dod i'r amlwg.

Bydd monitro'r Strategaeth yn cyd-fynd â fframwaith SDC, gan sicrhau bod ymyriadau'n cyflawni gweledigaeth a dyheadau'r ddau.

Mae gweledigaeth, nodau ac amcanion y Strategaeth hon wedi'u llywio gan drafodaethau â rhanddeiliaid allweddol a chytunwyd arnynt yn ystod gweithdai rhanddeiliaid.

Tabl 4.1 Fframwaith Cysoni Amcanion a Pholisi SDL CSF

Gweledigaeth SDL CSF	System trafndiaeth a defnydd tir integredig sy'n blaenoriaethu teithio cynaliadwy, yn galluogi'r newid i sir ddi-garbon ac yn cefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o fywyd.			
Amcanion Lles SDC	Yn dda i bobl a chymunedau	Yn dda i'r amgylchedd	Yn dda i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg	Yn dda i'r economi a lleoedd yng Nghymru
Amcanion SDL CSF	Lleihau anghydraddoldebau a chefnogi cymunedau diogel, iach, teg a hygyrch i bobl a lleoedd trwy ddarparu cludiant yn Sir Fynwy	System drafnidiaeth sy'n sicrhau gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn gwella ymwybyddiaeth o ganlyniadau dewisiadau teithio ar newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, ansawdd aer ac iechyd	System drafnidiaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg, yn galluogi pobl i ddefnyddio trafndiaeth gynaliadwy i gael mynediad i weithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol	System drafnidiaeth sy'n cyfrannu at uchelgeisiau economaidd Sir Fynwy, yn cefnogi cymunedau lleol, ac yn gwella opsiynau trafndiaeth gynaliadwy i drefi marchnad allweddol a chyrchfannau allanol.
Blaenoriaethau SDC	Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio	Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau trafndiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon a seilwaith		Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy
Meysydd Ffocws SDL CSF	Cynllunio Defnydd Tir	Teithio Llesol		Newid Ymddygiad
	Cysylltedd Digidol	Bws		Seilwaith gwefru cerbydau trydan
	Cludo Nwyddau a Logisteg	Rheilffordd		Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio
	Hybiau a Chyfnwdfeydd Symudedd	Gwasanaethau cymunedol ar alw		Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol
Fframwaith Monitro SDC	Pellter a deithiwyd fesul person	% teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus		Cilomedrau cerbyd a deithiwyd
	% o'r gweithlu sy'n gweithio o bell	Allyriadau nwyon tŷ gwydr		% o'r cerbydau allyriadau sero

Tabl 4.2 Meysydd Ffocws SDL ac Uchelgeisiau Polisi

Meysydd Ffocws SDL CSF	Uchelgais y Polisi
Cynllunio Defnydd Tir	Rhaid i gynigion datblygu hyrwyddo dulliau cynaliadwy, carbon isel, diogel o drafnidiaeth sy'n lleihau'r angen i deithio mewn car, cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio a gwella'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus.
Cysylltedd Digidol	Gwella cysylltedd digidol a chefnogi mwy o gyfleusterau a gwasanaethau lleol, fel y gall pobl weithio o gartref neu'n agos at eu cartrefi a chael mynediad i wasanaethau'n lleol yn rheolaidd yn hytrach na theithio pellteroedd hir.
Cludo Nwyddau a Logisteg	Cefnogi datblygiad rhwydwaith cystadleuol, ymatebol a chadarn o wasanaeth dosbarthu nwyddau a logisteg, sy'n lleihau'r angen i deithio ac yn cyfrannu at ein uchelgeisiau llesiant ehangach.
Canolbwyntiau Symudedd a Chyfnwydd	Cyfleusterau canolbwynt symudedd a gorsaf sy'n cefnogi cyfnwydd rhwng gwasanaethau bysiau a threnau ac yn hwyluso teithiau milltir gyntaf ac olaf trwy amrywiaeth o dulliau trafnidiaeth cynaliadwy.
Teithio Llesol	Datblygu rhwydwaith o lwybrau lleol i gysylltu pobl â'r lleoedd y maent yn teithio iddynt ar gyfer teithiau bob dydd er mwyn cefnogi cerdded, beicio a beicio fel y dewis a ffeirir ar gyfer teithiau byrrach.
Bysiau	Sicrhau bod rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau bws aml, dibynadwy a fforddiadwy sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â dulliau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus gan alluogi trigolion i gyrraedd cyrchfannau allweddol gan gynnwys canol trefi, gofal iechyd, ysgolion, a gweithleoedd.
Rheilffyrdd	Rhwydwaith rheilffordd integredig, hygyrch gyda threnau amlach i gyrcfannau allweddol
Gwasanaethau Ar Alw a Chymuned	Sicrhau set lewyrchus o wasanaethau trafnidiaeth ar-alw a chymunedol sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach.
Newid Ymddygiad a Gwybodaeth	Sicrhau set lewyrchus o wasanaethau trafnidiaeth ar-alw a chymunedol sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach.
Isadeiledd Codi Tâl ar gyfer Cerbydau Trydan	Sicrhau bod CSF yn parhau i arwain y newid i gerbydau trydan yng Nghymru drwy sicrhau bod seilwaith gwefru teg a chyfiawn ar gael i drigolion ac ymwelwyr.
Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio	Sicrhau bod ffyrdd a strydoedd yn ddiogel, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac yn cael eu rheoli ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffyrdd, a chefnogi opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy gan gynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol	Blaenoriaethu teithio cynaliadwy ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o deithiau ysgol uwchradd a choleg, a bron pob taith ysgol gynradd yn cael eu gwneud ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

4.3 Newid Dulliau Teithio

Rydym yn cydnabod oherwydd natur wledig y sir y bydd yn parhau i fod yn ofynnol i ddefnyddio ceir lle nad oes opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy ar gael eto. Fodd bynnag, mae angen i ni roi mesurau ar waith i gefnogi newid dulliau teithio cyn belled ag y bo modd, i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gwella iechyd a datgarboneiddio'r system drafnidiaeth. Yr hyn sy'n allweddol i gyflawni hyn yw integreiddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gyda cherdded, beicio ac olwynio er mwyn gwneud hi'n hawdd i bobl deithio'n ddi-dor.

Wrth lunio'r strategaeth hon, rydym yn deall bod amser teithio, rhagweladwyedd, rhwyddineb cynllunio a mynediad at wybodaeth o safon, yn ogystal â chost, cysur a diogelwch, yn rhai o'r pethau a fydd yn llywio ymddygiad a'r dewisiadau y mae pobl yn eu gwneud ynghylch defnyddio dulliau teithio penodol.

Er mwyn perswadio defnyddwyr i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, rhaid i systemau trafnidiaeth gyhoeddus gynnig lefel debyg o ryddid i fod yn berchen ar gar.

Mae'n bosibl na fydd trafndiaeth gyhoeddus ei hun yn gallu cynnig teithiau o ddrws i ddrws, ond o'i gyfuno â cherdded a beicio gall fod yn fwy na'r car, gan ddarparu trafndiaeth aml-foddol ar daith ddi-dor.

Mae gwella dibynadwyedd ac amllder yn hanfodol i weithrediad ac atyniad gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a chynnyddu defnydd. Mae angen seilwaith ochr y ffordd o ansawdd uchel mewn safleoedd bysiau a chanolbwyntiau symudedd i integreiddio gorsafoedd rheilffordd yn well â dulliau eraill, yn ogystal â thir cyhoeddus sy'n cefnogi ac yn annog cerdded a beicio, hefyd i feithrin ymddiriedaeth defnyddwyr mewn trafndiaeth gyhoeddus fel dewis amgen hyfyw a deniadol. i ddefnyddio car.

4.4 Cerdded a Seicio

Mae angen inni ei gwneud yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy dymunol i bobl fynd o gwmpas drwy gerdded a beicio. Mae ein Strategaeth Teithio Llesol yn canolbwyntio ar deithiau tair milltir neu lai, gan gysylltu pobl â chyrchfannau allweddol o fewn cymunedau. Fel rhan o'r weledigaeth hon, rydym yn gobeithio annog mwy o blant i gerdded i'r ysgol, gyda manteision iechyd a chymdeithasol, a lleihau diogelwch ffyrdd a phroblemau parcio ceir wrth gatiâu'r ysgol, yn ogystal â lleddfu tagfeydd mewn rhai trefi.

Rydym am wneud ein trefi a'n cymunedau'n haws i'w cerdded drwy fesurau fel gwneud strydoedd siopa yn fwy ystyriol o gerddwyr, gyda choed i roi cysgod, mwy o feinciau a mynediad hawdd i doiledau cyhoeddus. Rydym hefyd am ymgorffori llwybrau cerdded a beicio mewn datblygiadau newydd fel bod trigolion yn cael y cyfle i gerdded a beicio cyn gynted ag y byddant yn symud i mewn.

4.5 Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau i wasanaethau bysiau yng Nghymru drwy ei dull 'un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn', sy'n cynnwys masnachfreinio fel elfen allweddol. Mae'r model masnachfreinio yn cynnig bod

awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol rhanbarthol, Trafnidiaeth Cymru, a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ddylunio rhwydweithiau o fewn y cyllid sydd ar gael. Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag awdurdodau lleol, fyddai'r 'awdurdod masnachfreinio' a fyddai'n gyfrifol am dendro gwasanaethau, derbyn incwm prisiau, a thalu gweithredwyr.

O ystyried y newid hwn sy'n dod i'r amlwg, rydym am i'n gwasanaethau bysiau gael eu trefnu fel un rhwydwaith unedig o wasanaethau fel rhan o rwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ehangach, gan gysylltu â gorsafoedd rheilffordd newydd presennol ac arfaethedig yn ogystal â llwybrau cerdded a beicio. Defnyddir yr egwyddorion canlynol i lywio dyluniad rhwydweithiau craidd

- Hawdd ei ddeall – Rhwydwaith o llwybrau craidd sy'n ffurfio rhwydwaith cydlynol sy'n adlewyrchu'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Byddwn yn darparu map yn dangos y llwybrau sydd ar gael ac yn mabwysiadu rhifau cyson a brandio cyffredin i wella dealltwriaeth teithwyr.
- Amllder 'troi i fyny a mynd' – Ar gyfer llwybrau craidd, gydag oriau gweithredu cyson a gwasanaethau gyda'r nos/penwythnosau i wella hwylustod a hyblygrwydd y rhwydwaith heb wybodaeth am amserlenni.
- Trosglwyddiadau – Seilwaith gwell mewn gorsafoedd bysiau a hybiau i greu profiad cyfnawid da i deithwyr.

Dylai'r rhwydwaith craidd ddarparu 'asgwrn cefn' hirdymor o wasanaethau dibynadwy a chadarn y gall teithwyr wneud cynlluniau o'u cwmpas. Bydd amlderau'n cael eu monitro, a newidiadau'n cael eu gweithredu lle bo angen i ymateb i newidiadau yn y galw ac aflonyddwch tymor byr, yn hytrach na newid gwasanaethau'n sylfaenol gan arwain at ddrwsych i deithwyr.

4.6 Cynllunio Defnydd Tir a Thrafnidiaeth

Fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i leihau'r angen i deithio drwy ddod â swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau yn nes at ble mae pobl yn byw ac i annog pawb i wneud dewisiadau trafndiaeth cynaliadwy.

Fel rhan o'r dull hwnnw, mae'n ceisio sicrhau newid drwy ddull newydd o weithredu, cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith ffyrdd strategol; dull mwy cydgysylltiedig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth; gwella a chyflymu gweithrediad cynlluniau a rhaglenni teithio llesol; a newid y ffordd rydym yn cynllunio ac yn ariannu rhaglenni a phrosiectau trafndiaeth.

Lle bo'n briodol, bydd Sir Fynwy yn croesawu dull strydoedd iach, sy'n darparu fframwaith i sicrhau newidiadau cadarnhaol i gymeriad a defnydd ein lleoedd trwy gynyddu gofod, gwyrddni, a lleihau llygredd aer. Mae ganddo ddeg prif ddangosydd y gellir eu defnyddio i fesur pa mor 'iach' yw stryd.



Ffigur 4.1 Fframwaith i gyflawni strydoedd iach.

4.7 Hybiau Symudedd

Mae canolbwyntiau symudedd yn lleoedd lle gall pobl newid o un dull o deithio i'r llall. Gellir cyflwyno hybiau symudedd i gynyddu cyrhaeddiad y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ac annog cerdded a beicio ar gyfer teithiau milltir gyntaf/olaf. Bydd trawsnewid ein lleoedd o amgylch newidiadau mewn ymddygiad teithio yn cefnogi swyddi lleol ac adnewyddu cymunedol ac yn eu gwneud

yn lleoedd gwell i fyw ac ymweld â hwy. Mae canolbwyntio symudedd ledled ardaloedd trefol, maestrefol a gwledig hefyd yn datgloi cyfleoedd eraill, boed yn welliannau lleol i'r parth cyhoeddus, yn ddefnyddiau masnachol neu'n ddarpariaeth gymunedol.

Mae byd trafndiaeth yn cael ei amharu gan dechnoleg, newid arferion gwaith a sut mae pobl yn dewis treulio eu hamser hamdden, sy'n golygu na allwn gymryd twf yn y galw yn ganiataol mwyach. Mae prosiectau sy'n 'cloi' galw i mewn drwy adeiladu cartrefi a gofod swyddfa ar hybiau symudedd a chyfnewidfeydd yn un ffordd o fynd i'r afael â'r her hon. Bydd strategaethau i wneud y defnydd tactegol gorau o'r seilwaith presennol, megis gosod parciau bach i greu mannau gwyrdd gwydn a darparu seilwaith gwefru trydan yn dod yn fwyfwy pwysig, yn ogystal â dylunio hyblygrwydd a'r gallu i addasu i seilwaith newydd, o ystyried y gyfradd gynyddol o newid technolegol.

Er mwyn helpu i gyflawni canolbwyntiau symudedd llwyddiannus, byddwn yn:

- Gwella ymddiriedaeth defnyddwyr mewn trafndiaeth gyhoeddus a cherdded a beicio drwy ailddyrranu gofod lle bo'n briodol ac yn ymarferol i roi blaenoriaeth i drafnidiaeth gyhoeddus a symudedd llesol sy'n galluogi teithiau cyflymach, mwy deniadol ac sy'n gwella dibynadwyedd.
- Gwella'r gallu i drosglwyddo rhwng gwasanaethau drwy wella'r seilwaith cyfnewid.

Cefnogi prosiectau trawsnewid tir trefol o amgylch canolbwyntiau symudedd i ymwreiddio cerdded a beicio ar gyfer teithiau milltir gyntaf ac olaf, a gosod cysylltedd aml-dulliau teithio wrth galon cymunedau lleol.

5. METHODOLEG ARFARNU

5.1 Fframwaith Arfarnu

Mae proses arfarnu wedi'i mabwysiadu sy'n helpu i flaenoriaethu ymyriadau sy'n cyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n dilyn yn fras y prosesau yng Nghanelawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), a ddiweddarwyd yn ddiweddar i adlewyrchu blaenoriaethau SDC. Bydd hyn yn helpu i ddarparu ymagwedd gyson â'r broses arfarnu a fydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n cael ei ddatblygu.

Mae'r gwerthusiad yn defnyddio set o feini prawf y cytunwyd arnynt i asesu perfformiad tebygol yr ymyriadau rhestr hir yn erbyn yr amcanion strategol ac mae'n darparu mapio o'r opsiynau ar y rhestr fer i'w cynnwys yn y SDL. Amlinellir y broses arfarnu lawn yn Nhabl 5.1.

Daeth y rhestr hir o ymyriadau o ddogfennau polisi allweddol ac astudiaethau dewis opsiynau, gan gynnwys:

- Cynllun Trafnidiaeth Lleol blaenorol CSF (2015-2020)
- Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTDP)
- Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (CDLI)
- Adroddiad Cam 1 MEF Cas-gwent-Casnewydd
- Cynlluniau a nodwyd gan randdeiliaid mewn gweithdai SDL.

Cynlluniau a gynigir yn seiliedig ar ddadansoddiad o fylchau o gynlluniau presennol, adolygiad o arfer gorau SDL, a heriau trafnidiaeth a lles parhaus yn Sir Fynwy.






Mae'r gwerthusiad yn dosbarthu cynlluniau i 5 categori:

- Cyflawni; Cynllunio; Parhau; Cefnogi; ac Adolygu.

Bydd y dull hwn yn helpu CSF i wneud penderfyniadau gan ystyried statws cyllid neu gynllunio, trefniadau llywodraethu, anghenion cydweithio a risgiau.

5.2 Dosbarthiad Cynllun SDL

Cydnabyddir na fydd CSF yn gyfrifol am gyflawni gweledigaeth y Strategaeth hon ar ei phen ei hun. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Cydbwyllgor Corfforaethol Deddwyrain Cymru, Network Rail a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu a chyflawni'r 131 o ymyriadau a nodir yn y Strategaeth hon. Yn yr un modd, bydd angen mwy o waith ar rai cynlluniau nag eraill i sefydlu'r achos dros fuddsoddi, a'r gofynion a'r cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni. O'r herwydd, mae pob ymyriad wedi'i grwpio yn ôl y pum categori a nodir yn Nhabl 5.1 isod.

LTS Classification	Description
 Deliver	Specific interventions that align with WTS and LTS objectives, that have undergone an integrated well-being appraisal. These are the key focus of the LTS period and MCC will be responsible for delivery (in full for smaller schemes, or initial stages for larger programmes such as ATNM development) within the five-year LTS plan period.
 Plan	Longer term interventions that align with the LTS objectives and WTS priorities, that could be developed further but are unlikely to be deliverable within the plan period. These schemes have not been fully appraised (Step 3) due to a lack of detail at this stage.
 Continue	Interventions that are already funded, have gone through <u>WelTAG</u> appraisal elsewhere or that are Welsh Government requirements or ongoing commitments undertaken by MCC.
 Support	Interventions that MCC will not ultimately be responsible for delivering, but have an interest in promoting, supporting and/or collaborating on with other entities (e.g., Welsh Government, TFW, neighbouring Local Authorities etc. These schemes have not been fully appraised (Step 3) as they will be taken forward/led by others.
